## Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried eu cymryd a pham?

**Cadwch o fewn 1,000 o eiriau. Bydd y math o gwestiynau y dylech fod yn eu hateb yn cynnwys, er enghraifft:**

**Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater dan sylw a'r camau a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Sut rydych wedi cymhwyso / sut y byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r camau arfaethedig, drwy gydol y polisi a'r cylch cyflawni?**

**Hirdymor**

- *Pa dueddiadau, heriau a chyfleoedd hirdymor a allai effeithio ar y cynnig?*
- *Sut mae'r cynnig yn atal / lliniaru'r effeithiau gwael yn y tueddiadau hyn neu'n hwyluso / yn gwneud yn fawr o'r effeithiau da?*

**Atal**

- *Sut mae'r cynnig yn cefnogi torri cylchoedd negyddol fel tlodi, iechyd gwael, difrod amgylcheddol a cholli bioamrywiaeth?*
- *A yw'r cynnig yn trin symptom neu'r achos sylfaenol? Os felly sut? Os yw'n trin symptom, beth y gellir ei wneud am yr achos sylfaenol?*
- *Sut y gallai'r cynnig leihau ei effeithiau negyddol ei hun ee lleihau gwastraff a'r defnydd o adnoddau, allyriadau a'r effaith ar ansawdd yr aer, effaith negyddol ar gydlyniant cymunedol / cymdeithasol?*

**Integreiddio**

- *Sut y gallai'r cynnig hwn gysylltu â gwahanol agendâu polisi cyhoeddus a chyfrannu atynt, a chreu manteision lluosog e.e. sut y gall prosiect trafnidiaeth gefnogi gwelliannau mewn iechyd neu ddiwylliant neu leihau nifer y bobl sydd heb waith?*
- *Pa gamau ymarferol ydych chi wedi'u cymryd i integreiddio eich cynnig â'r Rhaglen Lywodraethu, y cynlluniau a'r amcanion llesiant ynghyd â chynlluniau ac amcanion Cyrff a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill er mwyn sicrhau bod y cynnig yn cyfrannu cymaint â phosibl ar draws y saith nod llesiant?*

**Cydweithredu**

- *Pwy yw'r partneriaid sydd â buddiant cyffredin yn y cynnig hwn?*

- *Sut y mae'r partneriaid hynny wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynnig a chynllunio'r modd y caiff ei gyflawni, a beth fydd eu cyfraniad ato?*

**Cymryd rhan**

- *Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?*
- *Beth sy'n bwysig i'r bobl y mae'r cynnig yn effeithio arnynt a sut y gallent fod yn rhan o'i gyflawni?*

*Yn ogystal â'r pum ffordd o weithio uchod, ystyriwch y meysydd canlynol:*

**Effaith**

- *Beth yw'r prif ddadleuon o blaid ac yn erbyn y cynnig? Cyfeiriwch at dystiolaeth; dylech gydnabod bylchau sylweddol yn ein gwybodaeth a disgrifio unrhyw gynlluniau i'w llenwi.*
- *Pa mor eang ydych chi wedi archwilio'r dadleuon hyn drwy gynnwys a chydweithredu?*

Ers 2012, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol ar draws pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru sydd, at ddibenion y rhaglen hon, wedi'u rhannu'n wyth rhanbarth cydlyniant: Caerdydd a Bro Morgannwg, Cwm Taf, Dwyrain Gwent, Gorllewin Gwent, y Canolbarth a'r Gorllewin, y Gogledd-ddwyrain, y Gogledd-orllewin, a Bae Abertawe.

Ar hyn o bryd mae'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol yn cael ei hariannu ar gyfanswm cost o £1,600,000, a ddyfernir i awdurdodau lleol i gyflogi wyth tîm cydlyniant rhanbarthol ledled Cymru. Dyrennir £200,000 o gyllid grant i bob tîm rhanbarthol i ariannu Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol a hyd at dri Swyddog Cydlyniant ym mhob rhanbarth. Mae'r cyllid hefyd yn sicrhau bod o leiaf £20,000 yn cael ei wario ar grantiau bach ym mhob rhanbarth.

Yn 2021, comisiynodd Llywodraeth Cymru Diverse Cymru i gynnal adolygiad cyflym annibynnol o'r Rhaglen. Nod yr adolygiad oedd asesu cynllun y rhaglen a'r ffordd yr oedd yn cael ei chyflawni, a nodi gwersi i'w dysgu o ran sut y gallai'r rhaglen wella.

Canfu'r adolygiad annibynnol fod y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol yn cael ei gwerthfawrogi gan y mwyafrif o randdeiliaid, a oedd yn teimlo ei bod yn canolbwyntio ar y materion cywir ac yn gwneud cyfraniad pwysig at ddatblygu Cydlyniant Cymunedol yng Nghymru.

**Cafodd yr adolygiad a'r argymhellion eu llywio gan amrywiaeth eang o safbwyntiau a barn gan ystod amrywiol o sefydliadau, gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad bywyd o weithio gyda chymunedau ar lawr gwlad o bob cwr o Gymru. Mae cael y mewnbwn hwn i ddatblygu cynlluniau gwaith y timau cydlyniant yn cefnogi'r egwyddor o gyd-gynhyrchu ac yn helpu i sicrhau bod y rhaglen yn mynd i'r afael â'r materion mwyaf perthnasol fel a'u codwyd gan gymunedau yng Nghymru drwy'r gwaith ymgysylltu hwn.**

**Ers polareiddio'r gymuned leol yn Llanelli, 2023, yn dilyn cynlluniau i gartrefu ceiswyr lloches yng Ngwesty'r Parc y Strade, mae'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol wedi'i haddasu i gynnwys prosiectau wedi'u targedu sy'n mynd i'r afael â pholareiddio o fewn y cylch gorchwyl. Mae hyn wedi cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, mentrau fel Prosiect Iacháu'r Rhaniad yn Llanelli a Chynllun Cymunedol Trelái a Chaerau.**

Er mwyn helpu i gyfathrebu'r pwrpas a'r fethodoleg y tu ôl i'n gwaith cydlyniant yn fwy effeithiol, mae Egwyddorion Cydlyniant yn cael eu datblygu. Bydd yr egwyddorion hyn yn esbonio sut rydym yn diffinio cydlyniant a'r cysyniadau sy'n gysylltiedig â meithrin perthynas dda, hyrwyddo cyfle cyfartal, a mynd i'r afael ag erledigaeth ac aflonyddu. Bydd yr Egwyddorion yn trosglwyddo '5 ffordd o weithio' Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i gyd-destun cydlyniant. Byddwn yn gofyn i'n Rhaglen Gydlyniant a mentrau cydlyniant eraill ddangos cydymffurfiaeth â'r Egwyddorion hyn wrth fonitro prosiectau.

Mae'r Rhaglen Gydlyniant yn allweddol i waith Lywodraeth Cymru wrth weithredu'r nod llesiant o Gymru o gymunedau cydlynol, yn ogystal â chyfrannu tuag at Gymru fwy cyfartal, Cymru wydn, a Chymru ffyniannus.

**Mae'r Rhaglen yn ceisio gweithredu'r pum ffordd o weithio. Mae'n mabwysiadu dull cydweithredol at weithio o fewn awdurdodau lleol, ochr yn ochr â'r heddlu a phartneriaid diogelwch cymunedol i feithrin cydlyniant cymunedol, gyda ffocws cryf ar waith ataliol i fynd i'r afael â thensiynau cymunedol.**

**Dull gweithredu**

Ni chynigir unrhyw ddeddfwriaeth.

## Adran 8. Casgliad

(Sylwer: bydd yr adran hon yn cael ei chyhoeddi)

### 8.1 Sut mae pobl y mae’r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi cael eu cynnwys yn y gwaith o’i ddatblygu?

Yn 2021, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad cyflym annibynnol o'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol i gryfhau effaith gadarnhaol y rhaglen yn y blynyddoedd i ddod. Nod yr adolygiad oedd asesu cynllun y rhaglen a'r ffordd yr oedd yn cael ei chyflawni, a nodi gwersi i'w dysgu o ran sut y gallai'r rhaglen wella.

Cafodd yr adolygiad ei lywio gan gyfres o arolygon, cyfweliadau, grwpiau ffocws a gweithdai i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol, ac adrodd ar ystod o ganfyddiadau. Cysylltwyd â rhestr o grwpiau o ddiddordeb a oedd yn cynnwys y pedwar Heddlu yng Nghymru, rhanddeiliaid y Trydydd Sector, swyddogion Llywodraeth Genedlaethol a Lleol, y timau Cydlyniant eu hunain, ac unigolion o gefndiroedd lleiafrifol, a chymunedau lle cynhaliwyd gweithgarwch gan y rhaglen i ddarganfod sut mae'n eu cefnogi ac os oes angen newid unrhyw beth.

Mae'r adolygiad a'r argymhellion wedi llywio datblygiad cynllun gwaith y timau cydlyniant. Mae cael y mewnbwn hwn i ddatblygu'r Rhaglen yn cefnogi'r egwyddor o gydgynhyrchu ac yn helpu i sicrhau bod y rhaglen yn mynd i'r afael â'r materion mwyaf perthnasol fel y'u codwyd gan gymunedau yng Nghymru drwy'r ymgysylltiad hwn.

Mae timau cydlyniant rhanbarthol yn gweithio'n agos gyda'u rhanddeiliaid cymunedol i sicrhau bod cyflenwi lleol yn cyd-fynd ag anghenion a blaenoriaethau. Er mwyn sicrhau bod ein dull cenedlaethol yn parhau i gyd-fynd ag anghenion, byddwn yn dechrau proses flynyddol o ymgysylltu â rhanddeiliaid cymorth cymunedol bob Ionawr/Chwefror i lywio'r flwyddyn ganlynol o gyflawni'r Rhaglen.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Mae'r Rhaglen Cydlyniant yn cyfrannu tuag at feithrin cymunedau cadarnhaol, cysylltiedig, cefnogol a chydlynol, a hyrwyddo cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o fewn awdurdodau lleol a'r cyrff cyhoeddus. Gall diffyg cydlyniant cymunedol effeithio'n negyddol ar iechyd a lles person mewn sawl ffordd. Gall arwain at gynnydd mewn tensiynau cymunedol, troseddau casineb, ac eithafiaeth, a allai arwain at weithredoedd terfysgol yn y pen draw.

Mae gan ddiffyg cydlyniant cymunedol y potensial i effeithio ar ymddiriedaeth y cyhoedd mewn llywodraeth leol, yr heddlu a chyrff cyhoeddus, a gwanhau ymdrechion i fynd i'r afael ag ystod eang o anghydraddoldebau a phroblemau cymdeithasol.

Mae'r Rhaglen wedi'i chysylltu'n gryf â'r llesiant a ddaw wrth adeiladu Cymru o Gymunedau Cydlynol. Bydd y Rhaglen yn parhau i gyflawni camau gweithredu tuag at

greu cymunedau sy'n ddeniadol, yn ddiogel, yn hyfyw ac wedi'u cysylltu'n dda, trwy ei rhaglen amrywiol o gamau gweithredu, sy'n cysylltu â'r pum ffordd o weithio. Bydd ein datblygiad o Egwyddorion Cydlyniant Cymunedol yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r diben a'r fethodoleg a ddefnyddir i helpu i adeiladu cydlyniant, yn ogystal ag annog cysondeb ledled Cymru.

Atal

Un o brif amcanion y Rhaglen yw gweithio gyda'r heddlu a phartneriaid diogelwch cymunedol i fonitro a lliniaru tensiynau cymunedol er mwyn osgoi dwysau'r mater dan sylw. Mae hyn yn ymwneud â chymryd dull ataliol, rhoi tawelwch meddwl i gymunedau a gwrando ar eu pryderon, cyn i'r problemau hyn arwain o bosibl at angen am adnoddau ychwanegol i fynd i'r afael â nhw. Mae ein datblygiad o'r Fframwaith Ymateb i Gydlyniant Cymunedol yn cefnogi Llywodraeth Cymru i ymateb mewn ffordd fwy amserol a phriodol i densiynau. Rydym yn trafod y dull hwn gyda chyrff cyhoeddus eraill i weld a oes dulliau tebyg ar waith neu y gellid eu creu mewn sefydliadau eraill.

Integreiddio

Mae'r Rhaglen yn gweithio'n agos gyda phartneriaid diogelwch cymunedol, gan gyfarfod yn rheolaidd i sicrhau ymagwedd gydweithredol at gydlyniant cymunedol. Mae'r timau'n mynd i gyfarfodydd amlasiantaeth ac yn eu cynnull hefyd i fynd i'r afael â thensiynau cymunedol a gwella cynhwysiant. Mae'r timau cydlyniant yn cael eu hystyried fel y sianel rhwng cyrff cyhoeddus a chymunedau - mae llwyddiant y rhaglen yn dibynnu ar integreiddio effeithiol.

Cydweithredu

Mae'n nod gan y Rhaglen Gydlyniant i brif ffrydio cydlyniant cymunedol mewn cyrff cyhoeddus a'r gymuned ehangach drwy hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth, gan gyd-fynd â deddfwriaeth a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae timau cydlyniant yn helpu partneriaid i weld cysylltiadau a'r angen i ymgysylltu i sicrhau cydraddoldeb a chydlyniant.

Cymryd rhan

Bydd y Rhaglen Gydlyniant yn parhau i weithio gyda grwpiau cymunedol, gan gynnwys drwy gyflwyno cynlluniau grant bach i ganiatáu i gymunedau llawr gwlad nodi cyfleoedd i hyrwyddo cydlyniant.

Meddwl am yr Hirdymor:

Mae ein dull hirdymor o ariannu a chyflawni gwaith cydlyniant cymunedol yn strategol wedi'i nodi gan adolygiad annibynnol Diverse Cymru o'r Rhaglen a melinau trafod ar gydlyniant fel rhan bwysig o lwyddiant y Rhaglen. Mae adeiladu cydlyniant yn ymdrech

hirdymor ac mae cyllid hirdymor yn helpu i ddarparu sefydlogrwydd ac arbenigedd, yn ogystal â chryfhau perthnasoedd ac ymddiriedaeth gymunedol.

O fis Awst 2025, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ariannu'r Rhaglen am dair blynedd arall, gyda'r opsiwn i'w hymestyn am dair blynedd eto wedyn, er mwyn cynnal y dull tymor hwy o feithrin cydlyniant cymunedol yng Nghymru.

**8.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau, neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r Rhaglen wedi'i halinio'n gryf â'r nod llesiant o Gymru o Gymunedau Cydlynol ac mae'n cyfrannu'n fawr at weithio tuag at y nod hwn. Bydd y Rhaglen yn cymryd dull integreiddiol, gyda gweithgareddau sy'n gweithio tuag at fwy nag un nod llesiant. Er enghraifft, mae gwaith i gefnogi cymunedau i gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau cyrff cyhoeddus nid yn unig yn helpu i feithrin cydlyniant cymunedol ond hefyd yn helpu i greu Cymru fwy cyfartal a gwydn.

Nod y Rhaglen yw mynd i'r afael â gwreiddiau troseddau casineb a helpu i wneud i gymunedau yng Nghymru deimlo'n fwy diogel. Mae troseddau casineb yn cael effaith negyddol pellgyrhaeddol ar gymunedau ledled Cymru, gan gynnwys dioddefwyr, teuluoedd a ffrindiau'r dioddefwyr, y tystion, a'r troseddwyr eu hunain.

**8.4 Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

**Mae'r Rhaglen Cydlyniant yn cael ei monitro bob chwarter. Bydd hyn yn canolbwyntio ar gynnydd pob tîm wrth weithredu eu cynlluniau gwaith. Bydd holl arweinwyr y tîm cydlyniant yn cwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru yn fisol i rannu arfer da ac i drafod a gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a ddaeth ar eu traws.**

**Rydym yn ceisio datblygu metrigau cydlyniant o fewn y Rhaglen Cydlyniant i helpu i fesur cydlyniant dros amser.**

**Disgwylid i Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd gyhoeddi ei adolygiad o waith cydlyniant yng Nghymru ym mis Hydref 2025. Byddwn hefyd yn gallu defnyddio'r adroddiad Ymchwiliad hwn i lywio ein gwaith yn y blynyddoedd nesaf.**

## A. Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant

Ar ôl ei gwblhau, rhaid anfon **pob** Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant i fewnflwch CRIA@llyw.cymru

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Opsiynol <https://www.ohchr.org/en/professionalinterest/pages/crc.aspx> wrth iddynt arfer unrhyw rai o’u swyddogaethau.

Proses yr Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant yw'r mecanwaith y cytunwyd y dylai swyddogion ei ddefnyddio i gefnogi Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau. Dylid defnyddio'r asesiad i lywio cyngor gweinidogol, a rhaid ei gwblhau cyn gwneud penderfyniad gweinidogol. Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, rhaid hefyd cyhoeddi eich Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant.

---

I gael cyngor ac arweiniad pellach ar broses yr Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant, dylech droi at *Y Llawlyfr Staff ar Hawliau Plant* neu gysylltu â’r Gangen Plant *CRIA@llyw.cymru*

---

**1. Amcanion polisi**

Mae'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol wedi'i hymestyn yn ddiweddar am 3 blynedd arall tan Ebrill 2029, gydag estyniad posibl am 3 blynedd arall eto wedyn, yn amodol ar gyngor gweinidogol pellach.

O dan y Rhaglen Cydlyniant, mae'r timau rhanbarthol yn cyflawni ystod o amcanion, gan gynnwys:

- monitro tensiynau yn y gymuned a gweithio gyda phartneriaid i'w lliniaru
- cefnogi cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill i ddarparu hyfforddiant ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a chynhwysiant
- sicrhau y caiff materion cydlyniant cymunedol eu hystyried wrth ddatblygu cynlluniau a pholisïau awdurdodau lleol
- Ymgysylltu â chymunedau lleiafrifol, gan eu cynnwys mewn datblygu mentrau i hyrwyddo cydlyniant cymunedol.

- meithrin cysylltiadau da drwy ddatblygu digwyddiadau a phrosiectau i ddod â phobl o wahanol gymunedau ynghyd

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Ymgysylltodd adolygiad annibynnol 2022 o'r Rhaglen Gydlyniant â 47 o sefydliadau'r sector cyhoeddus a 30 o sefydliadau a grwpiau cymunedol trydydd sector sy'n cynrychioli ystod amrywiol o bobl o bob cwr o Gymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Cafodd nifer o faterion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc eu crybwyll yn yr adroddiad. Teimlwyd y dylai'r Rhaglen greu mwy o gyfleoedd i ddod ag ystod eang o bobl amrywiol at ei gilydd a phob nodwedd yn eu plith yn defnyddio dulliau gwahanol, gan gynnwys dulliau rhwng cenedlaethau sy'n dod â nhw at ei gilydd i rannu eu straeon a'u profiadau a hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth. Argymhelliad clir a ddeilliodd o'r adolygiad oedd parhau i ddarparu gweithgareddau addysg a chodi ymwybyddiaeth mewn ysgolion drwy'r Rhaglen. Teimlwyd y dylai'r sesiynau hyn ganolbwyntio ar ddathlu amrywiaeth fel rhan o gymunedau, yn hytrach na bwydo i mewn i'r naratif o wahaniaeth. Cynigiwyd gefeillio ysgolion hefyd fel dull o hyrwyddo cydlyniant ymhlith plant a phobl ifanc.

Mae'r safbwyntiau a'r argymhellion hyn wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r rhaglen waith ac maent yn cael eu hadlewyrchu yn rhai o'r amcanion a'r camau gweithredu. Mae'r ffordd o weithio gydag ysgolion ar weithio gydag ysgolion wedi'i chadw o ganlyniad i lywio clir iawn o'r adroddiad.

Mae cynlluniau gwaith wedi'u diweddaru yn cynnwys y camau gweithredu i 'weithio gydag ysgolion i feithrin cynhwysiant ac amgylchedd dysgu diogel'. Mae'r cam hwn wedi'i alinio â dau o bedwar diben y cwricwlwm, sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus o Gymru a'r byd, ac yn unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaol fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Roedd adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2024 hefyd yn cynnwys canmoliaeth i Lywodraeth Cymru am "adolygu eu Strategaeth Cydlyniant Cymunedol, gan archwilio'n benodol gamsyniadau ynghylch ceiswyr noddfa ac Islamoffobia, a sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses hon." Er bod y Rhaglen wedi gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o ffyrdd, nid yw lleisiau plant wedi cael eu clywed yn gryf o'r blaen wrth osod blaenoriaethau. O 2026 ymlaen, byddwn yn anelu at gyflwyno mecanwaith ar gyfer clywed y lleisiau hyn a byddwn yn gweithio gyda'r Comisiynydd Plant ac eraill i ddod o hyd i'r dull mwyaf effeithiol.

3. **Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith**

| Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| *Erthygl 2 - Peidio â gwahaniaethu*<br><br>*Erthygl 3 - Buddiannau gorau'r plentyn;*<br><br>*Erthygl 12 – Hawl i gael gwrandawiad*<br><br>*Erthygl 14 - Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu'r hyn maen nhw'n ei ddewis ac i arfer eu crefydd,*<br><br>*Erthygl 19 - amddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod*<br><br>*Erthygl 22 - plant sy'n ffoaduriaid*<br><br>*Erthygl 29 – Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalent pob plentyn i'r eithaf. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant eu hunain ac eraill.* | X | | Mae'r Rhaglen Cydlyniant yn cyflawni set o amcanion sy'n cyd-fynd â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010). Mae gwaith y Rhaglen wedi'i anelu at hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.<br><br>Bydd y gwaith hwn yn cefnogi ymdrechion i beidio â gwahaniaethu a chynhwysiant plant o grwpiau lleiafrifol, fel ffoaduriaid. Mae hyn yn cyd-fynd yn dda ag Erthyglau 2, 3, 14 a 22.<br><br>Trwy ei alinio â'r PSED, mae'r Rhaglen Gydlyniant hefyd yn canolbwyntio'n glir ar ddileu ymddygiad anghyfreithlon, gan gynnwys gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth. Mae hyn yn cyd-fynd yn dda ag Erthyglau 2, 3, 19 a 29. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys hyfforddiant ac ymgysylltu mewn lleoliadau addysgol. Mae'r Rhaglen yn gweithio'n agos ochr yn ochr â Chanolfan Cymorth Casineb Cymru Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â chasineb a rhagfarn mewn ysgolion.<br><br>Byddwn yn creu trefn newydd ar gyfer casglu lleisiau pobl ifanc o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 2026 ymlaen. Bydd hyn yn ein helpu i alinio ag Erthyglau 3 a 12. |

*I gael rhagor o wybodaeth ynghylch CCUHP a'i Brotocolau Dewisol, ewch i'r Dudalen Hawliau Plant ar y Fewnrwyd.*

**4. Cyngor a phenderfyniadau gweinidogol**

Mae'r Cyngor Gweinidogol y cytunwyd arno ym mis Awst 2025, wedi cadarnhau cyllid y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol am 3 blynedd arall (2026-2029), gydag estyniad posibl am 3 blynedd arall, yn amodol ar Gyngor Gweinidogol pellach.

**5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

- *Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog, dylid cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru.*
- *Anfonwch adrannau 1 ac 8 o'ch Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A) at reolwr gwe eich adran i'w cyhoeddi.*
- *Yn ogystal, rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant sydd wedi ei gwblhau i flwch post CRIA@llyw.cymru.*

*I gael rhagor o wybodaeth a chymorth o ran y broses hon, ewch i'r dudalen Hawliau Plant ar y Fewnrwyd sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau.*

**6. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc**

Datblygwyd argymhellion adolygiad annibynnol 2022 gyda mewnbwn gan randdeiliaid yn y trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac yn eu cynrychioli. Rydym wedi sicrhau bod datblygiad amcanion a chynlluniau gwaith y Rhaglen Gydlyniant wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â chanfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad annibynnol, gan sicrhau bod barn a sylwadau'r rhanddeiliaid hyn wedi llywio camau gweithredu a blaenoriaethau'r Rhaglen mewn ffordd sy'n hyrwyddo hawliau plant yng Nghymru.

Ym mis Chwefror 2025, cyfarfu Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol â phobl ifanc yr oedd y Comisiynydd Plant wedi'u dwyn ynghyd i siarad am faterion cydlyniant. O 2026 ymlaen, byddwn yn datblygu mecanwaith i geisio barn pobl ifanc a'r adborth diweddaraf.

7. **Monitro ac Adolygu**

Er mwyn helpu i fonitro ein cynnydd, rydym wedi meithrin cysylltiadau â swyddfa Comisiynydd Plant Cymru. Aeth y Comisiynydd i gyfarfod gyda'r 8 arweinydd rhanbarthol ym mis Mehefin 2025 fel cyflwyniad a chyfle i wneud y Comisiynydd yn ymwybodol o'r amrywiaeth o waith sy'n cael ei wneud yng Nghymru i wella bywydau plant. Rydym wedi cytuno i roi gwybod i'r Comisiynydd am ein gwaith gyda phlant yn y dyfodol.

## B. Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

**1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn y Sector Cyhoeddus (PSED) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i'r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd o’r fath.
- Meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r Rhaglen Cydlyniant yn gweithio yn amlwg tuag at gydymffurfio â'r PSED, yn enwedig i feithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Cafodd adolygiad annibynnol 2022 o'r Rhaglen Gydlyniant ei lywio gan amrywiaeth eang o safbwyntiau a barn sefydliadau'r trydydd sector sydd â phrofiad bywyd o weithio gyda chymunedau â nodweddion gwarchodedig ar lawr gwlad. Rydym wedi defnyddio'r mewnbwn hwn i ddatblygu cynlluniau gwaith y timau cydlyniant, sy'n cefnogi'r egwyddor o gydgynhyrchu ac yn helpu i sicrhau bod y rhaglen yn mynd i'r afael â'r materion mwyaf perthnasol fel y'u codir gan gymunedau yng Nghymru drwy'r ymgysylltiad hwn.

**Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig**:

| **Grŵp neu nodwedd warchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Y rhesymau sydd wrth wraidd eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)** | **Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Oed (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Bydd rhaglenni cymunedol yn debygol o ddod â grwpiau sy'n cynnwys gwahanol genedlaethau at ei gilydd a ddylai gryfhau cysylltiadau cymunedol, meithrin cyd-ddealltwriaeth a lleihau stereoteipiau. | Mae'r cynllun gwaith Cydlyniant yn cynnwys amcan i feithrin perthynas dda a chydlyniant rhwng pobl sydd â Nodweddion Gwarchodedig a hebddynt, gyda ffocws ar leihau gwahanu ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Dylai hyn gynnwys profiadau croestoriadol ac ar draws cenedlaethau, gan gynnwys unigolion a chymunedau mewn ffordd gydgynhyrchiol.<br><br>Nododd adolygiad annibynnol y Rhaglen bwysigrwydd rhannu profiadau rhwng cenedlaethau fel rhan o'r cynllun gwaith. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol i'r gwaith polisi hwn.<br><br>Bydd gweithgareddau a gyflwynir drwy'r rhaglen cydlyniant cymunedol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n hygyrch ac yn talu sylw dyledus i oedran y cyfranogwyr. |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o | Dylai mentrau sy'n cynnwys pobl anabl wella cysylltiadau cymunedol a lleihau ynysu. | Mae cynllun gwaith y Rhaglen yn cynnwys amcan i Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sydd â Nodweddion | Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol i'r gwaith polisi hwn.<br><br>Bydd gweithgareddau a gyflwynir drwy'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| anabledd[1] a sut y gallai eich cynnig achosi'n anfwriadol y rhwystrau sy'n anablu pobl â gwahanol fathau o amhariadau, neu sut y gallid ei ddefnyddio'n rhagweithiol i'w dileu) | Gall digwyddiadau croestoriadol hefyd adeiladu cyd-ddealltwriaeth a lleihau stigma.<br><br>Mae ein gwaith i adeiladu mannau diogel yn agwedd bwysig ar sut i wella canlyniadau i aelodau anabl o'r gymuned. | Gwarchodedig a heb Nodweddion Gwarchodedig, gyda chamau gweithredu i annog cyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â'r rhwystrau a nodwyd rhag cydraddoldeb i gymunedau lleiafrifol, gan sôn yn benodol am bobl anabl. Mae amcanion y cynllun gwaith yn gydnaws â deddfwriaeth a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru, megis y Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl.<br><br>Dylai cynnwys pobl anabl yn y gwaith hwn gefnogi canlyniadau cymdeithasol mwy cadarnhaol i unigolion a'r gymuned ehangach. | rhaglen cydlyniant cymunedol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n hygyrch ac yn talu sylw dyledus o ystod gallu'r cyfranogwyr. |
| Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a | Gall cynnwys aelodau cymunedol trawsryweddol helpu i wella ymdeimlad o berthyn i'r gymuned a meithrin ymddiriedaeth. | Mae cynllun gwaith y Rhaglen yn cynnwys amcan i Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sydd â Nodweddion | Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol i'r gwaith polisi hwn.<br><br>Bydd gweithgareddau a gyflwynir drwy'r |

[1] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Rydym yn deall nad yw pobl anabl yn cael eu hanablu gan eu hamhariadau ond gan y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Y ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl yw drwy sicrhau mai dileu rhwystrau y bydd eich cynnig, yn hytrach na'u creu. Am ragor o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwilio am 'model cymdeithasol'.

| | | | |
|---|---|---|---|
| phobl drawsryweddol) | Gall digwyddiadau croestoriadol helpu i leihau stigma a meithrin perthynas dda.<br><br>Mae ein gwaith i adeiladu mannau diogel yn agwedd bwysig ar sut i wella canlyniadau i aelodau o'r gymuned drawsryweddol. | Gwarchodedig a heb Nodweddion Gwarchodedig, gyda cham gweithredu i ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb sy'n anelu at ddileu neu leihau anfanteision ac annog cyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â'r rhwystrau a nodwyd rhag cydraddoldeb i gymunedau lleiafrifol, gan sôn yn benodol am gymunedau LHDTC+. Mae amcanion yn y cynllun gwaith yn cyd-fynd â deddfwriaeth a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru, megis y Cynllun Gweithredu LHDTC+. | rhaglen cydlyniant cymunedol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n hygyrch i gyfranogwyr trawsryweddol a thrawsnewidiol ac sy'n ymwybodol ohonynt. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. | Nid yw'r Rhaglen Cydlyniant yn cynnwys unrhyw waith pwrpasol ynghylch beichiogrwydd a mamolaeth oherwydd nad yw agweddau cymdeithasol yn tueddu i achosi unrhyw densiynau ynghylch y nodwedd hon. Pe bai tensiynau'n dechrau datblygu, byddem yn disgwyl i'r Rhaglen | Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol i'r gwaith polisi hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | addasu i gynnwys y maes gwaith hwn. | |
| Hil (dylid cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Mae hiliaeth ac agweddau gwrth-ymfudwyr yn cyfrannu'n sylweddol at densiynau cymdeithasol, troseddau casineb a dirywiad mewn cydlyniant cymunedol. Nod ein gwaith cydlyniant yw cael effaith gadarnhaol ar leihau casineb ac adeiladu cysylltiadau cymunedol cryfach. Mae hyn yn cynnwys mannau diogel a dewr i sicrhau bod cymunedau yn gallu teimlo'n ddiogel ac yn gallu mynegi barn mewn modd sy'n cael ei hwyluso.<br><br>Bydd cyfarfodydd cymunedol yn helpu i ddangos hunaniaeth a rennir a bod gan aelodau'r gymuned fwy yn gyffredin. | Mae cynllun gwaith y Rhaglen yn cynnwys amcan i feithrin perthynas dda a chydlyniant rhwng pobl sydd â Nodweddion Gwarchodedig a heb Nodweddion Gwarchodedig. Mae'n cynnwys ffocws ar leihau gwahanu, gan gyd-fynd â deddfwriaeth a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru, gan sôn yn benodol am gymunedau lleiafrifoedd ethnig a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.<br><br>Mae yna hefyd gamau gweithredu i gefnogi cynnwys Sipsiwn a Theithwyr ac i gefnogi setlo a chynnwys ymfudwyr mewn cymunedau lleol. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol i'r gwaith polisi hwn. |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Bydd prosiectau o fewn y Rhaglen Cydlyniant yn ceisio cael effaith gadarnhaol trwy gydnabod cyffredinrwydd a | Mae cynllun gwaith y Rhaglen yn cynnwys amcan i Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sydd â Nodweddion Gwarchodedig a'r rhai hebddynt, gyda cham | Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol i'r gwaith polisi hwn.<br><br>Bydd gweithgareddau a gyflwynir drwy'r rhaglen cydlyniant |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | lledaenu ymwybyddiaeth o wyliau crefyddol. Bydd digwyddiadau cymunedol ar y cyd yn cael eu hannog. | gweithredu i ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb sy'n anelu at ddileu neu leihau anfanteision ac annog cyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â'r rhwystrau a nodwyd rhag cydraddoldeb i gymunedau lleiafrifol, gan sôn yn benodol am gymunedau ffydd. Mae amcanion y cynllun gwaith yn cyd-fynd â deddfwriaeth a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru, megis yr ARWAP, sy'n cynnwys camau i fynd i'r afael ag Islamoffobia a Gwrth-semitiaeth. | cymunedol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n hygyrch i gyfranogwyr sydd â ffydd neu hebddo, ac sy'n ymwybodol ohonynt. |
| Rhyw / Rhywedd | Nid yw rhyw yn cael ei grybwyll yn benodol yng nghynllun gwaith y Rhaglen ond mae'n debygol o fod yn ffactor croestoriadol pwysig yn y cam-drin y gall pobl ei dderbyn (o'i gyfuno â nodweddion eraill).<br><br>Byddwn yn ceisio hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yn y ffordd yr ydym yn ymgymryd â gwaith cydlyniant. | Mae tystiolaeth eang bod cam-drin a thargedu yn cael ei brofi'n anghymesur gan fenywod a chan fenywod o lawer o gefndiroedd lleiafrifol. Trwy sicrhau cydraddoldeb rhywiol yn ein gwaith, rydym yn gobeithio lleihau hyn. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol i'r gwaith polisi hwn.<br><br>Bydd gweithgareddau a gyflwynir drwy'r rhaglen cydlyniant cymunedol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n hygyrch i'r gymuned hon. |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, | Gall cynnwys aelodau cymunedol lesbiaidd, hoyw a deurywiol helpu i wella ymdeimlad o berthyn i'r gymuned a meithrin ymddiriedaeth. | Mae cynllun gwaith y Rhaglen yn cynnwys amcan i Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sydd â | Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol i'r gwaith polisi hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hoyw a Deurywiol) | Gall digwyddiadau croestoriadol helpu i leihau stigma a meithrin perthynas dda.<br><br>Mae ein gwaith i adeiladu mannau diogel yn agwedd bwysig ar sut i wella canlyniadau i aelodau lesbiaidd, hoyw a deurywiol o'r gymuned. | Nodweddion Gwarchodedig a heb Nodweddion Gwarchodedig, gyda cham gweithredu i ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb sy'n anelu at ddileu neu leihau anfanteision ac annog cyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â'r rhwystrau a nodwyd rhag cydraddoldeb i gymunedau lleiafrifol, gan sôn yn benodol am gymunedau LHDTC+. Mae amcanion yn y cynllun gwaith yn cyd-fynd â deddfwriaeth a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru, megis y Cynllun Gweithredu LHDTC+. | Bydd gweithgareddau a gyflwynir drwy'r rhaglen cydlyniant cymunedol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n hygyrch i gyfranogwyr LHDTC+ ac yn ymwybodol ohonynt. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. | Nid yw'r Rhaglen Cydlyniant yn cynnwys unrhyw waith penodol o amgylch priodas a phartneriaeth sifil oherwydd bod agweddau cymdeithasol yn fras o blaid priodas gyfartal a'r cysyniad o briodas ei hun. Pe bai tensiynau'n dechrau datblygu, byddem yn disgwyl i'r Rhaglen | Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar y sector gwirfoddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | addasu i gynnwys y maes gwaith hwn. | |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Gweler yr asesiad effaith ar hawliau plant am fanylion llawn. | Mae'r cynllun gwaith Cydlyniant yn cynnwys amcan i feithrin perthynas dda a chydlyniant rhwng pobl sydd â Nodweddion Gwarchodedig a hebddynt, gyda ffocws ar leihau gwahanu ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Dylai hyn gynnwys profiadau croestoriadol ac ar draws cenedlaethau, gan gynnwys unigolion a chymunedau mewn ffordd gydgynhyrchiol. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar y sector gwirfoddol.<br><br>Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud gyda phobl ifanc yn 2026 i sicrhau bod ein gwaith cydlyniant yn cefnogi hawliau plant yn llawn. |
| Cartrefi incwm isel | Bydd ein gwaith yn ceisio lleihau rhwystrau rhag cymryd rhan, gyda mynediad am ddim neu'n rhad i ddigwyddiadau a mentrau cymunedol.<br><br>Dylai'r dull hwn helpu i sicrhau amrywiaeth meddwl a barn wrth ddatblygu ein gwaith cydlyniant. | Mae cynllun gwaith y Rhaglen yn cynnwys amcan i feithrin perthynas dda a chydlyniant rhwng pobl sydd â Nodweddion Gwarchodedig a'r rhai hebddynt. Mae'n cynnwys ffocws ar leihau gwahanu ac anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gyd-fynd â deddfwriaeth a | Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol i'r gwaith polisi hwn.<br><br>Bydd gweithgareddau a gyflwynir drwy'r rhaglen cydlyniant cymunedol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n hygyrch i'r aelwydydd incwm isel hyn. Mae rhagor o fanylion am hyn yn y ddyletswydd effaith economaidd-gymdeithasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | pholisïau eraill Llywodraeth Cymru, megis y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. | |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau sydd wrth wraidd eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol<br><br>Erthygl 3 – gwahardd artaith a thriniaeth greulon, annynol ac israddol<br><br>Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a bywyd teuluol);<br><br>Erthygl 9 (rhyddid barn, cydwybod a chrefydd);<br><br>Erthygl 10 – Rhyddid mynegiant; | Mae'r Rhaglen yn sbardun ar gyfer newid cadarnhaol. Bydd yn darparu cyfleoedd hyfforddi i staff y sector cyhoeddus a swyddogion etholedig ynghylch gwrth-wahaniaethu (Erthygl 14). Mae ffocws ar ymreolaeth cymunedau a'u grymuso i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, trwy grantiau bach neu eu cynorthwyo gyda chyfleoedd cyllido eraill, a hefyd cynnwys cymunedau mewn prosesau llunio polisïau.<br><br>Mae ein gwaith yn ceisio adeiladu cyd-ddealltwriaeth ond rydym yn cydnabod bod amrywiaeth o safbwyntiau yn iach | Gwahoddwyd rhwydweithiau cydraddoldeb a hawliau dynol perthnasol ynghyd â grwpiau rhanddeiliaid a'u bwydo i mewn i ddatblygu'r adolygiad o'r Rhaglen, a lywiodd y cynllun gwaith. Roedd cais i sicrhau ymagwedd hawliau dynol at y gwaith. | Fel y gofynnwyd yn yr adolygiad, mae'r Rhaglen yn cymryd ymagwedd hawliau dynol at feithrin cydlyniant cymunedol, ac mae camau gweithredu'r cynllun gwaith yn cyd-fynd ag egwyddorion clir sy'n cefnogi cydraddoldeb. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 11 – Rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu;<br><br>Erthygl 14 - gwahardd gwahaniaethu<br><br>Bydd y Rhaglen hefyd yn cefnogi cydymffurfiaeth â Chonfensiynau a Chyfamodau'r Cenhedloedd Unedig a lofnodwyd ac a gadarnhawyd gan y DU fel Gwladwriaeth, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol a'r Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu Hiliol**.** | mewn democratiaeth. Rydym yn ceisio cefnogi arfer mynegiant, meddwl neu brotest cyn belled nad yw hyn yn niweidio eraill (Erthyglau 8, 9, 10, 11).<br><br>Mae ein gwaith i ddileu erledigaeth a chasineb yn cefnogi Erthygl 3. | | |